Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Coryton
# Ystâd Hollybush
# Yr Eglwys Newydd
# Caerdydd
# CF14 7DS

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Coryton yn Yr Eglwys Newydd, sydd i'r gogledd o Gaerdydd. Mae'n ysgol gynradd a gynhelir ar gyfer 224 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed, gan gynnwys 46 o blant yn y feithrinfa ran-amser. Mae tri dosbarth oedran unigol yn y Cyfnod Sylfaen a phedwar dosbarth oedran unigol yng nghyfnod allweddol 2.

Mae gan ryw 15% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd islaw'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn cael gofal gan yr awdurdod lleol. Mae tua 13% o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ryw 4% o ddisgyblion. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 18% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol yn Chwefror 2008. Penodwyd y pennaeth yn 2009.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Coryton yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,727 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghaerdydd yw £7,890 a'r isafswm yw £2,856. Mae Ysgol Gynradd Coryton yn safle 42 allan o'r 96 o ysgolion cynradd yng Nghaerdydd o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae bron pob un o'r disgyblion yn llawn cymhelliant i ddysgu ac mae eu hymddygiad a'u lles yn dda;
- mae cyflawniadau disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg;
- mae disgyblion yn cyflawni safonau da yng nghyfnod allweddol 2 ar hyn o bryd;
- mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn wrth iddynt symud trwy'r ysgol;
- caiff disgyblion ag anghenion ychwanegol eu cefnogi'n dda;
- mae'r cwricwlwm yn cynnwys ffocws clir ar ddiddordebau disgyblion a datblygiad cronnol eu medrau; ac
- mae ansawdd cyffredinol yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth a'r uwch dîm yn darparu arweinyddiaeth glir ac maent wedi sefydlu ethos effeithiol ar gyfer yr ysgol;
- mae hunanarfarniad yr ysgol yn gywir ac yn nodi meysydd dilys i'w gwella;
- mae'r ysgol yn monitro effaith cynlluniau gwella'n ofalus ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol;
- mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu yn dda i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau disgyblion;
- mae staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd yn yr ysgol a gyda gweithwyr proffesiynol eraill; ac
- mae llywodraethwyr yn herio'r ysgol i wella.

## Argymhellion

A1 Gwella cyrhaeddiad o ran y lefel uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2

A2 Gwella perfformiad bechgyn mwy abl yng nghyfnod allweddol 2

A3 Sicrhau bod athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymestyn eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llawn mewn gwahanol gyd-destunau

A4 Gwella'r cyfle i ddisgyblion ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn glir ac yn frwdfrydig i gwestiynau gan eu hathrawon. Mae disgyblion hŷn yn y cyfnod yn trafod eu gweithgareddau yn dda gydag oedolion ac maent yn siarad yn synhwyrol â'u partneriaid wrth weithio mewn parau.

Mae safonau siarad a gwrando yn dda trwy gydol cyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion mwy abl a llawer o ddisgyblion gallu canolig yn mynegi eu safbwyntiau yn gymwys a hyderus gan ddefnyddio geirfa berthnasol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n astud mewn gwersi ac yn addasu ffyrdd o siarad yn effeithiol at wahanol ddibenion, er enghraifft wrth weithio mewn grwpiau neu wrth siarad â'r dosbarth cyfan.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da â'u medrau darllen cynnar. Maent yn datblygu strategaethau ffonig priodol i ddatrys geiriau cymhleth neu anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen yn glir ac mae'r rhai mwy abl yn darllen yn rhugl gyda mynegiant. Mae llawer ohonynt yn gyfarwydd â thermau fel awdur a darlunydd, gallant drafod cymeriadau a digwyddiadau yn eu storïau ac maent yn gwybod y gwahaniaeth rhwng ffaith a ffuglen.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda ac mewn gwersi, ac yn darllen darnau o'u gwaith eu hunain neu oddi ar sgrin neu o destun yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen, mae ganddynt hoff lyfrau ac maent yn siarad am eu hoff awduron a'r llyfrau y maent yn eu hoffi. Gallant ddarllen ar goedd gyda mynegiant a gallant ddefnyddio llyfrau ffeithiol i ddod o hyd i wybodaeth a ffeithiau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth ddysgu sut i ffurfio llythrennau a defnyddio pensil i ysgrifennu mewn brawddegau. Wrth iddynt symud trwy'r cyfnod, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu storïau estynedig gyda defnydd sy'n datblygu'n briodol o atalnodi a dewisiadau mwy diddorol o eiriau. Maent yn llai effeithiol wrth ysgrifennu at ddiben penodol, fel disgrifio gweithgaredd gwers neu arbrawf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu ar gyfer ystod o ofynion ac mae llawer ohonynt yn addas eu harddull yn dda i fodloni gwahanol ddibenion, fel disgrifio dull gwyddonol, cyfarwyddiadau neu nodiadau am ymweliad â lle o ddiddordeb. Mae disgyblion mwy abl a hŷn yn ysgrifennu'n effeithiol yn estynedig. Ceir rhai achosion o sillafu gwael gan ddisgyblion gallu canolig. Mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyno yn dda ar y cyfan.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth dda am ffeithiau rhif. Gallant ddefnyddio'u medrau rhifiadol i gyfrifo a defnyddio gwahanol ddulliau i ddatrys problemau. Mae ganddynt

ymwybyddiaeth o drin data ac maent yn hyderus gyda chysyniadau fel cymedr, modd a chanolrif. Maent yn cymhwyso'u gwybodaeth ar draws y cwricwlwm, er enghraifft gan ddefnyddio graddfeydd ar fapiau, mesur, defnyddio taenlenni a graffiau ar gyfer arolygon, a chyfrifo gwerth am arian mewn pecynnau archfarchnad.

Gwneir cynnydd da mewn Cymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a sylwadau ac maent yn barod i ymuno â chaneuon a siantiau yn Gymraeg. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn ymateb i oedolion ac i'w gilydd mewn sgyrsiau syml. Wrth iddynt wneud cynnydd trwy'r ysgol, mae'r mwyafrif ohonynt yn ymestyn eu geirfa ac yn sgwrsio'n hyderus gan ddilyn patrymau strwythuredig. Gall llawer ohonynt ysgrifennu disgrifiadau a chyfarwyddiadau, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y disgyblion mwy abl gynhyrchu ysgrifennu estynedig yn Gymraeg.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da i lefelau disgwyliedig o'u mannau cychwyn. Mae'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt neu sydd o darddiad ethnig lleiafrifol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u targedau unigol.

Yn 2013, mae cyrhaeddiad yn y Cyfnod Sylfaen yn dda o gymharu â chyrhaeddiad ysgolion tebyg. Ar gyfer perfformiad mewn datblygiad mathemategol ac mewn llythrennedd, mae'r ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch na'r disgwyl (deilliant 6), mae cyrhaeddiad disgyblion mewn llythrennedd yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf, ac yn y 50% uwch ar gyfer perfformiad mewn datblygiad mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyrhaeddiad mewn Saesneg ar y lefel ddisgwyliedig yn 2013 yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg, fel ag yr oedd yn y flwyddyn flaenorol. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn y 50% is dros yr un cyfnod. Fodd bynnag, yn y naill a'r llall o'r ddwy flynedd ddiwethaf, roedd gan ryw 10% o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion arbennig neu roedd angen cymorth allanol sylweddol arnynt, ac roedd hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gyflawni'r lefel ddisgwyliedig.

O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) yn gosod yr ysgol yn y 50% is mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2013.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac mae hyn yn gryfder mawr yn yr ysgol. Dangosant barch a gofal at ei gilydd, at staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn frwdfrydig ac yn awyddus i weithio ac mae hyn yn creu awyrgylch cadarnhaol ar gyfer dysgu mewn gwersi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i gydweithio â'i gilydd mewn gweithgareddau pâr a grŵp. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu medrau dysgu annibynnol a gallant nodi'r medrau y gallant eu defnyddio yn eu llyfrau cofnod eu hunain. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn deall eu harferion dosbarth ac maent yn eu dilyn yn dda.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o ffordd iach o fyw. Maent yn gwybod am bwysigrwydd gwneud dewisiadau cytbwys o ran bwyd a diod a manteision ymarfer corff. Mae disgyblion hŷn yn mynychu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, sy'n helpu iddynt gyflawni hyn. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn briodol os bydd ganddynt bryderon neu os byddant yn wynebu anawsterau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon. Mae cyfradd presenoldeb yr ysgol yn dda. Y gyfradd oedd 95.2% y llynedd ac, at ei gilydd, mae'n cymharu'n dda â lefelau canran mewn ysgolion tebyg yn y blynyddoedd diwethaf.

Caiff y cyngor ysgol a'r cyngor eco eu hethol yn ddemocrataidd, maent yn cymryd eu rolau o ddifrif a chânt effaith fuddiol. Mae aelodau o'r cyngor eco wedi datblygu cod ymddygiad eco i hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau. Maent yn cyfleu hyn i ddisgyblion a phobl eraill i hyrwyddo ailgylchu ac yn ymweld ag ystafelloedd dosbarth amser cinio i sicrhau nad yw trydan a dŵr yn cael eu gwastraffu. Mae'r cyngor ysgol yn gwneud penderfyniadau am ei gyllideb ei hun ac yn cymryd cyfrifoldeb am drefnu digwyddiadau codi arian yn yr ysgol, y mae llawer o ddisgyblion wedi cymryd rhan ynddynt. Mae aelodau o'r cyngor wedi cyfrannu at ffurfio rheolau'r ysgol ac wedi cynnal trafodaethau sydd wedi arwain at newidiadau yn y ffordd y caiff egwyliau ysgol eu trefnu ar ddiwrnodau gwlyb.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae cwricwlwm yr ysgol wedi'i drefnu'n dda ac mae'n darparu fframwaith clir o weithgareddau ar gyfer disgyblion sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn adeiladu profiadau dysgu yn dda o amgylch rhaglen graidd o wyliau a digwyddiadau blynyddol. Yn ychwanegol, mae cyfleoedd wedi'u cynllunio i alluogi disgyblion i ddewis testunau dosbarth cyfan sy'n apelio atynt. Mae'r dulliau hyn yn gweithio'n effeithiol ac yn golygu y gall amrywiaeth dda o gyfleoedd dysgu ac arddulliau addysgu gael eu gweithredu ar draws y cyfnod.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn gweithio gydag athrawon i nodi'r themâu y maent yn eu hastudio ac mae hyn yn llwyddo i ennyn eu diddordeb. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar a'u medrau meddwl trwy gydweithio mewn parau a grwpiau. Mae'r ysgol yn gweithredu ystod addas o ymyriadau i gefnogi disgyblion sydd ar ei hôl hi â'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael cymorth arbennig yn gwneud cynnydd da o ganlyniad. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi gwella cyfleoedd ar gyfer datblygu rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau ond nid yw hyn wedi cael effaith ar draws yr holl ddosbarthiadau eto.

Mae'r ysgol yn addysgu disgyblion am gynaliadwyedd yn dda ac mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o faterion amgylcheddol. Mae cysylltiadau ag ysgolion mewn gwledydd eraill trwy brosiect Comenius yr Undeb Ewropeaidd yn gwella dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth a pharch at ddiwylliannau eraill.

Mae athrawon yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol i gyfathrebu â dosbarthiadau a disgyblion unigol. Cynhelir nifer o weithgareddau ac arferion dyddiol gan ddefnyddio'r iaith. Mae athrawon yn cynllunio gwersi er mwyn gallu datblygu geirfa yn raddol a cheir cyfleoedd cynlluniedig i ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Mae'r dimensiwn Cymreig i'r cwricwlwm yn amlwg yn gryf, er enghraifft wrth astudio cerddoriaeth Gymreig, dawnsio gwerin a thrwy ymweliadau â lleoliadau hanesyddol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol a gweithgareddau eraill y mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan ynddynt.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn paratoi gwersi'n ofalus i adeiladu ar wybodaeth bresennol disgyblion. Maent yn darparu ystod addas o dasgau i fodloni gwahanol anghenion y disgyblion. Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i gyfnod datblygu disgyblion a'u medrau mewn llythrennedd a rhifedd wrth gynllunio a rhoi disgyblion mewn setiau gallu cymysg ac oedran cymysg. Caiff cynnydd disgyblion mewn grwpiau ymyrraeth ei reoli'n dda.

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac maent yn cynnal disgwyliadau uchel o'i gilydd a'u disgyblion. Mae athrawon yn esbonio'r amcanion dysgu mewn gwersi yn dda. Defnyddiant holi yn fedrus i hyrwyddo medrau meddwl disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud defnydd da o adnoddau ac maent yn addysgu ar gyflymder addas ac yn amrywio'u dulliau i gynnal diddordeb disgyblion. Defnyddiant fyrddau gwyn rhyngweithiol a gwahanol gyfryngau i gyfoethogi eu gwersi yn briodol. Mewn rhai achosion, pan fydd yr addysgu'n cynnwys diffygion, ni chaiff cynnwys a chyflymder y cyflwyno eu pwyso a mesur yn dda ac mae disgyblion yn colli diddordeb yn eu gwaith.

Mae strategaethau asesu yn cynnwys disgyblion yn effeithiol wrth farnu eu cynnydd eu hunain. Yng ngwersi'r Cyfnod Sylfaen, mae athrawon yn siarad gyda disgyblion am eu gwaith a sut gallant wella. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ymwybyddiaeth dda o'u targedau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i lwyddo. Mae athrawon yn marcio gwaith ysgrifenedig disgyblion yn rheolaidd. Mae eu sylwadau yn gefnogol ac yn cynorthwyo disgyblion tuag at eu targedau canfyddedig.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr i asesu gwaith disgyblion yn gywir. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn dda gan ddefnyddio system fonitro gyfrifiadurol. Mae athrawon yn defnyddio'r system yn dda i nodi beth yw'r ffordd orau o dargedu adnoddau ac ymyriadau penodol i ddisgyblion penodol. Mae adroddiadau ysgol diwedd blwyddyn i rieni yn llawn gwybodaeth, maent yn nodi'r camau nesaf ar gyfer disgyblion ac yn dilyn arweiniad swyddogol. Caiff rhieni eu hannog i roi adborth uniongyrchol ar gynnwys ac ansawdd yr adroddiadau a gânt.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol ethos gofalgar a threfniadau effeithiol i hyrwyddo lles ac iechyd disgyblion. Mae disgyblion yn teimlo y gallant fynd at athrawon yn rhwydd am gymorth ac arweiniad. Ceir systemau priodol ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion. Dywed rhieni yr eir i'r afael yn gyflym ac yn effeithiol ag unrhyw bryderon ac y gallant fynd at y pennaeth ac aelodau eraill o staff yn hawdd pan fydd angen.

Mae'r ysgol yn rhoi cymorth cryf i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'n gweithio gydag ystod addas o asiantaethau i wella eu gofal a'u cymorth. Er enghraifft, mae cynorthwywyr addysgu wedi cael hyfforddiant i nodi a chynorthwyo dysgwyr ag anghenion emosiynol penodol.

Mae gwasanaethau ysgol yn dathlu ac yn gwobrwyo llwyddiannau unigolion, ac mae disgyblion yn barod i rannu yn llwyddiant ei gilydd. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian a menter ysgol gyfan yn cefnogi datblygiad cymdeithasol disgyblion ymhellach.

Mae cysylltiadau â lleoedd addoli lleol yn galluogi aelodau o wahanol ffydd i arwain disgyblion mewn myfyrio personol. Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion ar gyfer addoli dyddiol ar y cyd. Ar draws yr ysgol, mae digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth artistig trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol mewn gwersi ac i werthfawrogi gwaith pobl eraill, er enghraifft arlunwyr o Gymru.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Ceir darpariaeth addas ar gyfer addysg rhyw a pherthynas, ac mae rhieni yn dangos diddordeb yn hyn ac yn ei gefnogi. Mae ymwelwyr fel yr heddlu a nyrs yr ysgol yn helpu disgyblion i ddeall sut i gadw'n ddiogel ac yn dda. Mae rhieni'n gwerthfawrogi diogelwch amgylchedd yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae ethos yr ysgol yn groesawgar a gofalgar. Mae staff yn cynnal awyrgylch gofalgar a chynhwysol ac yn dathlu amrywiaeth. Mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u hannog.

Mae'r adnoddau sylweddol yn yr awyr agored o fudd mawr i bob disgybl. Mae mannau dysgu a chwarae datblygedig yn cefnogi dysgu creadigol a gweithredol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gwneir defnydd da o'r mynediad uniongyrchol a gânt i ardaloedd dysgu yn yr awyr agored o'u hystafelloedd dosbarth.

Mae lle yn gyfyngedig yn adeilad yr ysgol. Mae ffabrig yr adeilad wedi treulio, ac mae'r llawr a theils y nenfwd mewn cyflwr gwael. Nid yw'r ysgol wedi llwyddo i fodloni'r argymhelliad yn yr adroddiad arolygu diwethaf o ran mynediad i'r anabl ac nid oes toiledau addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

At ei gilydd, mae digon o adnoddau addysgu, gan gynnwys TGCh, i fodloni anghenion disgyblion. Fodd bynnag, mae nifer ac ansawdd cyfyngedig cyfrifiaduron yn cyfyngu ar eu defnydd i gefnogi addysgu a dysgu yn llawn.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer gwelliant parhaus yr ysgol, ac mae pob aelod o staff, rhieni, llywodraethwyr a disgyblion yn ei rhannu. Ceir ymdeimlad cryf o waith tîm ymhlith staff a llywodraethwyr. Mae gan yr ysgol rolau a chyfrifoldebau arweinyddiaeth diffiniedig, sy'n cael eu rhannu'n effeithlon gydag aelodau o'r staff addysgu. Mae'r strwythur arweinyddiaeth hwn yn hynod effeithiol wrth sicrhau bod pob aelod o staff yn canolbwyntio'n dda ar wella safonau.

Mae gan yr uwch dîm arweinyddiaeth ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion a staff ei gyflawni. Ceir ymdrech glir i godi safonau, yn enwedig mewn llythrennedd, rhifedd ac yng nghyflawniad disgyblion mwy abl. Ceir cyfathrebu da ar draws yr ysgol. Mae rheoli perfformiad ar gyfer pob aelod o staff yn gweithio'n dda. Mae targedau perfformiad yn canolbwyntio ar y meysydd gwella a nodwyd ac yn cysylltu'n agos â deilliannau disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae ganddynt wybodaeth dda iawn am berfformiad disgyblion a'r modd y mae hyn yn cymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg. Maent yn gwybod beth yw cryfderau'r ysgol a'r meysydd y mae angen eu datblygu. Mae llywodraethwyr yn cynnal eu hymwybyddiaeth o'r ysgol trwy ymweld â dosbarthiadau yn rheolaidd. Maent yn adrodd eu canfyddiadau i gael eu hystyried gan is-bwyllgor addysgu a dysgu, yn ogystal â'r corff llywodraethol cyfan. Mae hyn yn helpu llywodraethwyr i gynyddu eu gallu i herio'r ysgol i wella.

Mae'r ysgol yn cynnal ffocws priodol ar fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ymlaen, er enghraifft gwella medrau llythrennedd a rhifedd trwy ymgysylltu â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd cenedlaethol a sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn yr awyr agored yn cyd-fynd ag arfer dda yn y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr a rheolwyr yn adnabod yr ysgol yn dda iawn. Mae hunanarfarniad yr ysgol o'i chryfderau a'i meysydd i'w datblygu yn fanwl a chynhwysfawr. Mae prosesau ar gyfer casglu tystiolaeth yn systematig a rheolaidd ac yn cynnwys arfarnu safonau, siarad ag athrawon, gwrando ar ddisgyblion ac asesu adnoddau. Mae pob aelod o staff yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd ei angen. Mae hyn yn cynhyrchu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer nodi targedau heriol gyda ffocws clir ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion. Mae'r cyswllt rhwng canfyddiadau hunanarfarnu a chynllun gwella'r ysgol yn glir.

Mae arweinwyr yn defnyddio gweithdrefnau monitro yn effeithiol i sicrhau bod gwelliannau'n digwydd ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae athro uwch yn monitro'r

rhaglen ymyriadau llythrennedd ac mae athrawon yn cofnodi cynnydd disgyblion yn dda wrth iddynt weithio trwy'r camau ymyrraeth. O ganlyniad, yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y rhaglen hon yn llwyddo felly nid oes angen y cymorth penodol hwn arnynt mwyach.

Ceir ymdeimlad cryf o waith tîm lle mae arweinwyr pwnc yn rhannu arfer dda gyda'i gilydd er mwyn cynorthwyo cyflwyno cynllun gwella'r ysgol. Mae'r ysgol wedi bodloni'r argymhelliad i wella medrau disgyblion yn Gymraeg o'r adroddiad arolygu blaenorol yn arbennig o dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau rhwng rhieni a'r gymuned yn dda ac mae rhieni'n teimlo'u bod yn cael croeso yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio'i gwefan a chyfryngau electronig eraill yn effeithiol i wella ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i rieni. Mae rhieni'n mynegi eu barn mewn holiaduron ysgol rheolaidd hefyd.

Mae ymglymiad agos ag eglwysi a sefydliadau gwirfoddol yn ychwanegu'n gryf at fywyd yr ysgol ac yn cyfrannu'n effeithiol at gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, mae rhieni a phobl eraill yn gweithio'n dda ochr yn ochr â disgyblion yn ystod diwrnod diolchgarwch yr ysgol ac mewn gweithgareddau menter gymdeithasol.

Mae menter ar y cyd gyda myfyrwyr astudiaethau'r cyfryngau o brifysgol leol yn cynnig profiad cyffrous i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wrth iddynt weithio mewn stiwdios sy'n cynnwys offer proffesiynol i gynhyrchu ffilm yn gysylltiedig â rhaglen deledu enwog sy'n cael ei chreu yng Nghaerdydd.

Mae cyswllt gyda gwasanaethau ymgynghorol yr awdurdod lleol a hyfforddwyr allanol yn cynyddu gwybodaeth, medrau a hyder athrawon i gyflwyno gwersi effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio sawl gwasanaeth yr awdurdod lleol yn dda, er enghraifft wrth gynnig cymorth i ddisgyblion sy'n ymuno â'r ysgol y mae Saesneg yn ail iaith iddynt.

Mae disgyblion sy'n dymuno dechrau'r ysgol yn cael cyfres o gyfleoedd wedi'u trefnu i ymweld â'r dosbarth meithrin cyn iddynt gychwyn. Ceir cysylltiadau da gydag ysgolion cynradd eraill sy'n gysylltiedig â'r ysgol uwchradd y mae disgyblion yn ei mynychu ar ôl iddynt adael. Mae'r cydweithio effeithiol hwn yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n ddidrafferth i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r clwstwr o ysgolion cynradd lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i wella cysondeb ac ansawdd asesiadau athrawon.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon ac aelodau eraill o staff i fodloni anghenion ei disgyblion. Gwneir defnydd da o gynorthwywyr addysgu er mwyn gallu cyflwyno cymorth targedig. Gwnânt gyfraniad gwerthfawr at y dysgu ansawdd da.

Mae uwch arweinwyr yn monitro a rheoli perfformiad pob aelod o staff yn briodol ac yn unol ag arweiniad. Mae targedau rheoli perfformiad athrawon yn cysylltu'n dda â

deilliannau disgyblion ac yn cynorthwyo wrth gyflwyno gwelliannau arfaethedig yr ysgol. Caiff rhaglenni hyfforddi eu cynllunio'n ofalus ac maent yn ymwneud â blaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r rhain yn cysylltu'n effeithiol ag ymdrech yr ysgol i wella llythrennedd a rhifedd ar hyn o bryd.

Rhoddir cyfleoedd pwrpasol i arweinwyr pwnc weithio gyda chydweithwyr i rannu arbenigedd. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda rhwydweithiau o ysgolion eraill ac mae hyn wedi gwella'i harfer wrth ddatblygu ysgrifennu ac asesu medrau disgyblion.

Mae gan yr ysgol adnoddau digonol i gefnogi'r cwricwlwm a phrofiadau eraill a gynigir ganddi. Mae'n gwneud defnydd da o'i hadeiladau cyfyngedig.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn dda. Mae niferoedd amrywiol yn yr ysgol wedi arwain at sefyllfaoedd cyfnewidiol o ran y gyllideb. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi rheoli cyfnodau o ddiffyg yn y gyllideb yn llwyddiannus ac wedi cynnal ei gallu i ariannu mentrau allweddol i wella safonau.

Yng ngoleuni'r deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyrhaeddiad mewn Saesneg ar y lefel ddisgwyliedig yn 2013 yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg, yn unol â'r flwyddyn flaenorol. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi'i gosod yn y 50% is dros yr un cyfnod. Fodd bynnag, yn y naill a'r llall o'r ddwy flynedd ddiwethaf hyn, roedd gan ryw 10% o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion arbennig neu roedd angen cymorth allanol sylweddol arnynt, a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i gyflawni'r lefel ddisgwyliedig.

O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) yn gosod yr ysgol yn y 50% is mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2013. Yn y flwyddyn flaenorol, roedd yn y 50% is hefyd.

Ar y lefel uwch yng nghyfnod allweddol 2, yn 2013, roedd bechgyn yn tangyflawni o gymharu â merched. Mae asesiadau athrawon yr ysgol o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ar hyn o bryd, a bechgyn yn arbennig, yn dangos bod y duedd hon yn newid yn gadarnhaol. Ar lefelau eraill yn y ddau sector yn yr ysgol, nid oes unrhyw fwlch penodol o ran perfformiad cymharol bechgyn a merched, sy'n amrywio o un flwyddyn i'r llall.

Ar y lefel 4 ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2, yn 2012, fe wnaeth disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd) berfformio'n well na disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim, ac yn 2013, mae'r ffigurau cyrhaeddiad ar gyfer y dangosydd pwnc craidd yn gyfartal. Nid oes unrhyw duedd benodol yn amlwg yn y tair blynedd flaenorol.

At ei gilydd, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u targedau.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid – Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 95 | 93 | 2 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 95 | 90 | 5 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 95 | 91 | 4 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 94 | 91 | 3 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 94 | 92 | 2 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 93 | 89 | 4 | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 94 | 94 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 95 | 93 | 2 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 89 | 85 | 4 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 92 | 86 | 6 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 87 | 68 | 19 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 78% | 22% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 91 | 72 | 19 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 79% | 21% | |
| | | 84% | 16% | |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 49 | 31<br>63% | 18<br>37% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 49 | 40<br>82% | 9<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 49 | 39<br>80% | 9<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 49 | 26<br>53% | 23<br>47% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 49 | 18<br>37% | 27<br>55% | 1<br>2% | 0<br>0% | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 49 | 26<br>53% | 22<br>45% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 45 | 23<br>51% | 21<br>47% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 46 | 17<br>37% | 16<br>35% | 5<br>11% | 3<br>7% | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 49 | 30<br>61% | 18<br>37% | 1<br>2% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 48 | 26<br>54% | 21<br>44% | 1<br>2% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 49 | 27<br>55% | 21<br>43% | 1<br>2% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 45 | 18<br>40% | 19<br>42% | 1<br>2% | 0<br>0% | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 49 | 15<br>31% | 27<br>55% | 5<br>10% | 1<br>2% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 48 | 33<br>69% | 14<br>29% | 1<br>2% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 47 | 20<br>43% | 17<br>36% | 4<br>9% | 0<br>0% | 6 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 49 | 24<br>49% | 24<br>49% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 41 | 14<br>34% | 18<br>44% | 0<br>0% | 0<br>0% | 9 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 49 | 30<br>61% | 19<br>39% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 49 | 31<br>63% | 18<br>37% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gregory John Owens | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Mai Bates | Arolygydd Tîm |
| Helen Brigid Potts | Arolygydd Lleyg |
| Jeremy Phillips | Arolygydd Cymheiriaid |
| Shaun O’Connell | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.